Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Datganiad Ystadegol: 47/2026

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mehefin 2026

# Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2026
# Pennod 1: coetiroedd a choed Cymru

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron WG54762

ISBN Digidol 978-1-83745-704-5

Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2026

Pennod 1: coetiroedd a choed Cymru

Datganiad ystadegol y Llywodraeth rhif 47/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/dangosyddion-coetiroedd-i-gymru

Arweiniwyd y gwaith o gynhyrchu'r dangosyddion hyn gan Ymchwil Coedwigaeth, ar ran Llywodraeth Cymru. Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Coed a Phriddoedd
Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

PolisiCoedwigaeth.ForestryPolicy@gov.wales

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau ..... 2

Rhestr o ffigurau ..... 3

Cyflwyniad ..... 4

Tueddiadau ..... 6

Deilliant 1: arwynebedd coetiroedd yng Nghymru yn cynyddu ..... 8

- Dangosydd 1a: arwynebedd Coetiroedd ..... 8
- Dangosydd 1b: coed y tu allan i goetiroedd ..... 13
- Data ychwanegol a chyd-destun ..... 15
  - Plannu coetiroedd newydd ..... 15
  - Colli coetiroedd ..... 16
  - Safleoedd y Goedwig Genedlaethol ..... 17

Deilliant 2: mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ..... 19

- Dangosydd 2: arwynebedd coetiroedd ardystiedig ..... 19
- Data ychwanegol a chyd-destun ..... 21
  - Coedwig Genedlaethol i Gymru ..... 21

Deilliant 3: systemau coetiroedd yn iach a gwydn ..... 22

- Dangosydd 3a: gwytnwch coetiroedd: cyflwr ecolegol coetiroedd ..... 22
- Data ychwanegol a chyd-destun ..... 28
  - Amrywiaeth ..... 28
  - Cysylltedd ..... 30
- Dangosydd 3b: iechyd coed: Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol ..... 32
- Data ychwanegol a chyd-destun ..... 34
  - Canlyniadau o Rwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru ..... 34
  - Gwasanaeth Diagnostig a Chynghori ar Iechyd Coed ..... 35
  - Risgiau anfiotig ..... 36

Deilliant 4: coetiroedd wedi addasu'n well i gyflwyno ystod lawn o fanteision ..... 38

- Dangosydd 4: gwasanaethau ecosystem coetiroedd ..... 38
- Data ychwanegol a chyd-destun ..... 40
  - Coedwig Genedlaethol i Gymru ..... 40

Deilliant 5: mae rheolaeth coetiroedd a choed yn ymwneud yn agosach â mathau eraill o ddefnydd tir ........ 41
Dangosydd 5: rheoli coetiroedd ffermydd – wrthi'n cael ei ddatblygu ........ 41
Deilliant 6: coetiroedd a choed trefol yn cyflwyno ystod lawn o fanteision ........ 42
Dangosydd 6a: gorchudd canopi coed trefol ........ 42
Dangosydd 6b: canfyddiadau o fanteision coed trefol ........ 44

# Rhestr o dablau

Tabl 1: disgrifiad o ddadansoddiad tueddiadau ar gyfer dangosyddion Coetiroedd i Gymru ........ 6
Tabl 2: tueddiadau ar gyfer dangosyddion Coetiroedd i Gymru ........ 7
Tabl 3: arwynebedd coetiroedd fel canran o holl arwynebedd y tir, fesul cenedl, 1980 i 2025 ........ 12
Tabl 4: arwynebedd o goed y tu allan i goetiroedd (CAG), Cymru, seiliedig ar arolwg LiDAR Cymru 2020 i 2023 ........ 14
Tabl 5: arwynebedd (hectarau) o goetiroedd a gollwyd, Cymru, 2014 i 2024 ........ 17
Tabl 6: arwynebedd coetiroedd ardystiedig yn ôl dull rheoli (mil hectarau), Cymru, 2004 i 2025 ........ 20
Tabl 7: arwynebedd a chanran coetiroedd mewn cyflwr anffafriol, canolraddol a ffafriol o ran sgôr ecolegol cyffredinol, yn ôl math o goetir, Cymru ........ 27
Tabl 8: GCU yng Nghymru, 2025 ........ 30
Tabl 9: arwynebedd dan Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol, Cymru, 2010 i 2025 ........ 33
Tabl 10: canlyniadau ar gyfer monitro Ips typographus gan RhGIPC, 2022 i 2025 ........ 34
Tabl 11: canlyniadau ar gyfer monitro Ips cembrae gan RhGIPC, 2022 i 2025 ........ 35
Tabl 12: gorchudd canopi coed trefol yng Nghymru, 2009 i 2018 ........ 43

## Rhestr o ffigurau

Ffigwr 1: arwynebedd coetiroedd yng Nghymru, yn ôl math o goetir, 1990 i 2025 ..... 9
Ffigwr 2: arwynebedd coetiroedd yng Nghymru, yn ôl dull rheoli, 1990 i 2025 [noder 1] ..... 10
Ffigwr 3: dosbarthiad coetiroedd Rhestr y Goedwig Genedlaethol ledled Cymru, 2024 ..... 11
Ffigwr 4: plannu coetiroedd newydd yng Nghymru, yn ôl dull o reoli, 1971 i 2025 [noder 1] ..... 15
Ffigwr 5: canrannau pob dosbarth o gyflwr ecolegol coetiroedd, o ran pob un math o ddangosydd CEC mewn stondiau coetiroedd brodorol yng Nghymru. ..... 24
Ffigwr 6: canrannau pob dosbarth o gyflwr ecolegol coetiroedd, o ran pob un math o ddangosydd CEC mewn coetiroedd lled-frodorol a darnau yng Nghymru. ..... 25
Ffigwr 7: canrannau pob dosbarth o gyflwr ecolegol coetiroedd, o ran pob un math o ddangosydd CEC mewn stondiau anfrodorol yng Nghymru. ..... 26
Ffigwr 8: arwynebedd a stociwyd yn ôl prif rywogaethau, Cymru, 2012 vs. 2022. ......
Ffigwr 9: adroddiadau i GDChIC yn ôl dull o adrodd, Cymru, 2020 i 2025. ..... 36
Ffigwr 10: digwyddiadau blynyddol o danau mewn coetiroedd/coedwigoedd, Cymru, 2009 i 2024. ..... 37
Ffigwr 11: gwerth blynyddol (£ miliynau) o wasanaethau ecosystem a ddarperir gan goetiroedd yng Nghymru, 2011 i 2023. .....
Ffigwr 12: canran ymatebwyr a nododd fanteision coed mewn strydoedd i'r ardal drefol leol, Cymru, 2017 i 2025. ..... 45

## Cyflwyniad

Mae’r bennod hon yn cynnwys dangosyddion sydd yn monitro cynnydd tuag at ddeilliannau’r strategaeth a osodir allan ym mhennod Coetiroedd a Choed Cymru o’r strategaeth Coetiroedd i Gymru (CiG). Mae’r deilliannau a osodir allan yn y strategaeth honno yn gosod sylfaen i ymdrin â themâu strategol eraill. Ymdrinnir â rhai deilliannau yn y strategaeth gan fwy nag un dangosydd. Rhestrir isod y deilliannau, dangosyddion cysylltiedig, a’r ffynonellau data sy’n rhoi mwy o gyd-destun a manylion.

**Deilliant 1: cynnydd mewn gorchudd coetiroedd yng Nghymru**

Dangosydd 1a: arwynebedd coetiroedd

Dangosydd 1b: coed y tu allan i goetiroedd

Data ychwanegol a chyd-destun*:*

- Plannu o’r newydd
- Colli coetiroedd
- Safleoedd y Goedwig Genedlaethol

**Deilliant 2: mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli’n gynaliadwy**

Dangosydd 2: arwynebedd coetiroedd ardystiedig

Data ychwanegol a chyd-destun: Coedwig Genedlaethol i Gymru

**Deilliant 3: ecosystemau coetiroedd yn iach a gwydn**

Dangosydd 3a: gwytnwch: cyflwr ecolegol coetiroedd

Data ychwanegol a chyd-destun:

- Amrywiaeth
- Cysylltedd

Dangosydd 3b: Iechyd coed: arwynebedd dan Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol (HIPS)

Data ychwanegol a chyd-destun:

- Canlyniadau Rhwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru (RhGIPC)
- Adroddiadau i’r Gwasanaeth Diagnostig a Chynghori ar Iechyd Coed (GDChIC)
- Risgiau anfiotig

**Deilliant 4: coetiroedd wedi addasu'n well i gyflwyno ystod lawn o fanteision**

Dangosydd 4: gwerth gwasanaethau ecosystem coetiroedd

Data ychwanegol a chyd-destun: Coedwig Genedlaethol i Gymru

**Deilliant 5: mae rheolaeth coetiroedd a choed yn ymwneud yn agosach â mathau eraill o ddefnydd tir**

Dangosydd 5: coetiroedd fferm dan reolaeth - wrthi'n cael ei ddatblygu

**Deilliant 6: coetiroedd a choed trefol yn cyflwyno ystod lawn o fanteision**

Dangosydd 6a: gorchudd canopi coed trefol

Dangosydd 6b: canfyddiad o fanteision coed trefol

## Tueddiadau

Mae tueddiadau wedi eu gweithio allan ar gyfer y dangosyddion gan ddefnyddio’r meini prawf a osodir allan yn nhabl 1.

**Tabl 1: disgrifiad o ddadansoddiad tueddiadau ar gyfer dangosyddion Coetiroedd i Gymru**

| **Categori** | **Symbol** | **Trothwy** |
|---|---|---|
| Gwella | ↑ | >3% newid positif ers dangosyddion CiG diwethaf |
| Sefydlog (*h.y.,* fawr ddim neu ddim newid yn gyffredinol) | **=** | ≤3% newid ers dangosyddion CiG diwethaf |
| Dirywio | ↓ | >3% newid negyddol ers dangosyddion CiG diwethaf |
| Heb ei asesu am nad oedd digon o ddata i gymharu | **D/G** | Ddim yn gymwys |

Lle mae data priodol ar gael, cymerir y pwynt data mwyaf diweddar â’r gwerth o’r adroddiad dangosyddion CiG diwethaf (neu ddata o’r cyfnod hwnnw o amser lle nad adroddwyd am hyn o’r blaen), wedi ei lyfnhau gan ddefnyddio cyfartaledd 3-blynedd. Er enghraifft, byddai pwynt data o 2025 yn cael ei gymharu â’r cyfartaledd 3-blynedd o amgylch 2018 (2017, 2018 a 2019). Diben hyn yw lleihau effaith debygol anghysonderau blynyddol unigol.

Mae dangosyddion pennod 1 a’r tueddiadau cysylltiedig ers yr adroddiad diwethaf am y dangosyddion i’w gweld yn nhabl 2.

### Tabl 2: tueddiadau ar gyfer dangosyddion Coetiroedd i Gymru

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| 1a: Arwynebedd coetiroedd | = |
| 1b: Coed y tu allan i goetir (CAG) | Data yn darparu gwaelodlin |
| 2: Arwynebedd coetiroedd ardystiedig | = |
| 3a: Gwytnwch: cyflwr ecolegol coetiroedd | Data yn darparu gwaelodlin. |
| 3b: Iechyd coed: arwynebedd newydd dan Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol | ↑ |
| 4: Gwerth blynyddol gwasanaethau ecosystem coetiroedd | ↓ |
| 5: Coetiroedd fferm dan reolaeth | Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu. |
| 6a: Gorchudd canopi coed trefol | Ni chyfoeswyd y data ers yr adroddiad diwethaf am y dangosyddion. |
| 6b: Canfyddiad am fanteision coed trefol | ↓ |

# Deilliant 1: arwynebedd coetiroedd yng Nghymru yn cynyddu

Asesir y deilliant hwn gyda 2 ddangosydd: arwynebedd coetiroedd a choed y tu allan i goetiroedd. Cynhwysir data hefyd am blannu coetiroedd, colli coetiroedd a safleoedd y Goedwig Genedlaethol er mwyn rhoi cyd-destun ehangach.

## Dangosydd 1a: arwynebedd Coetiroedd


| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| 1a: Arwynebedd coetiroedd | = |

Dengys Ffigyrau 1 a 2 arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru, fel y'i diffinnir gan y Restr y Goedwig Genedlaethol (RhGG), yn ôl y math o goetir a'r dull rheoli. Diffinnir stond o goed fel coetir os oes ganddo arwynebedd o 0.5 hectar (ha) o leiaf, isafswm lled o 20 metr (m), a gorchudd canopi o 20% o leiaf, neu'r potensial i gyrraedd hyn. Mae'r diffiniad safonol hwn o goetir yn sicrhau bod modd cymharu ein hystadegau am goetiroedd yn uniongyrchol â deilliannau o rhestrau coedwigoedd Ewropeaidd eraill, fel y gallwn barhau i rannu ac adrodd am ein data yn rhyngwladol.

Cyfanswm arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru yn 2025 oedd 313,173 ha. Mae hyn yn gynnydd o ryw 18,000 ha ers 1990, a bu mymryn o symudiad tuag at goetiroedd llydanddail a rhai mewn perchenogaeth breifat dros yr un cyfnod. Ers rhifyn diwethaf dangosyddion Coetiroedd i Gymru, cynyddu wnaeth arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru, ond nid yn sylweddol iawn. Felly, y duedd yn y tymor byr yw dim neu fawr ddim newid yn gyffredinol.

Dylid nodi fod dulliau eraill o fesur arwynebedd coetiroedd ar gael nad ydynt wedi eu cyfyngu i ddiffiniad RhGG, ac y gall y rhain felly adrodd am arwynebeddau coetiroedd gwahanol.


**Ffigwr 1: arwynebedd coetiroedd yng Nghymru, yn ôl math o goetir, 1990 i 2025**




Disgrifiad o ffigwr 1: Siart bar wedi'i phentyrru yn dangos cynnydd cyffredinol yn arwynebedd y coetiroedd, gyda symudiad at fwy o goetiroedd llydanddail na choetiroedd conwydd.

Ffynhonnell: Ymchwil Coedwigaeth - cyfres amser, 2025.

**Ffigwr 2: arwynebedd coetiroedd yng Nghymru, yn ôl dull rheoli, 1990 i 2025 [noder 1]**





Disgrifiad o ffigwr 2: Siart bar wedi'i phentyrru yn dangos cynnydd cyffredinol mewn arwynebedd coetiroedd ers 1990, gyda gostyngiad yng nghoetiroedd YCLIC, a chynnydd mewn coetiroedd preifat dros y cyfnod cyfan. Arhosodd arwynebedd coetiroedd YCLIC yn weddol gyson ers tua 2000.

Ffynhonnell: Ymchwil Coedwigaeth - cyfres amser, 2025.

[noder 1] mae coetiroedd preifat yn cynnwys pob coetir y tu allan i Ystâd Coetiroedd Llywodraeth Cymru (YCLIC). Mae hyn yn cynnwys coetiroedd a reolir gan CNC y tu allan i YCLIC, coetiroedd eraill mewn perchenogaeth gyhoeddus (e.e., ym meddiant awdurdodau lleol) a choetiroedd mewn perchenogaeth breifat.

### Ffigwr 3: dosbarthiad coetiroedd  Rhestr y Goedwig Genedlaethol ledled Cymru, 2024




Disgrifiad o ffigwr 3: map o Gymru yn dangos dosbarthiad coetiroedd  Rhestr y Goedwig Genedlaethol ledled y wlad.

Ffynhonnell: Rhestr y Goedwig Genedlaethol, 2024. Yn cynnwys gwybodaeth a gyflenwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth, neu'n seiliedig ar y wybodaeth honno. © hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2025 yr Arolwg Ordnans.

Dengys Ffigwr 3 ddosbarthiad  coetiroedd y Rhestr y Goedwig Genedlaethol ledled Cymru yn 2024. Cynhyrchwyd y map hwn trwy ddefnyddio data agored y Comisiwn Coedwigaeth. Mae arwynebedd coetiroedd, sydd yn fwy na 0.5 hectar, wedi ei gategoreiddio fel math o goedwig a ddehonglir (MGDd) o ffotograffiaeth o'r awyr a delweddau lloeren. Mae ardaloedd heb fod yn goetir, ardaloedd agored dros 0.5 hectar sydd wedi eu llwyr amgylchynu gan goetiroedd, yn cael eu disgrifio yn ôl eu mathau ardal agored a ddehonglir (MAdd). Categorïau MGDd yw conwydd, llydanddail, conwydd cymysg yn bennaf, llydanddail cymysg yn bennaf, coedlan, coedlan gyda choed safonol, prysgwydd, coed ifanc, coed a gwympwyd, tir wedi'i baratoi, cwmwl / cysgod, ansicr, dwysedd isel, rhagdyb o goetir, coed a gwympwyd, a rhai a chwythwyd gan y gwynt. Mae Ffigwr 3 yn cynnwys coetiroedd sy'n dod i bob categori MGDd ac MGDd. Fel y gellir gweld o'r map hwn, mae coetiroedd wedi'u dosbarthu ledled Cymru; er hynny, mae rhai mannau gyda llai o orchudd coetiroedd, megis ardaloedd arfordirol.

Mae Tabl 3 yn cyflwyno arwynebedd coetiroedd fel canran o gyfanswm holl arwynebedd y tir ledled y DU. Yng Nghymru yn 2025, 15.1% oedd y ffigwr hwn. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y DU, ond yn is na'r canran o orchudd tir yn yr Alban.  Cynyddu wnaeth arwynebedd y coetiroedd fel canran o gyfanswm holl arwynebedd y tir ar draws holl genhedloedd y DU ers 1980.

**Tabl 3: arwynebedd coetiroedd fel canran o holl arwynebedd y tir, fesul cenedl, 1980 i 2025**

| Blwyddyn | Cymru | Lloegr | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | DU |
|---|---|---|---|---|---|
| 1980 | 11.6 | 7.3 | 11.8 | 4.9 | 9.0 |
| 1998 | 14.4 | 9.5 | 16.7 | 6.0 | 12.0 |
| 2025 | 15.1 | 10.3 | 19.4 | 8.6 | 13.5 |

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth: pennod 1, Ymchwil Coedwigaeth, 2025.

## Dangosydd 1b: coed y tu allan i goetiroedd

Tuedd ers adroddiad diwethaf Dangosyddion CiG: mae hwn yn ffynhonnell ddata newydd ar gyfer y rhifyn hwn o Ddangosyddion CiG felly nid oes modd adrodd am unrhyw duedd.

Mae'r dangosydd blaenorol yn ymdrin yn unig â choetiroedd fel y'u diffinnir gan RhGG. Mae llawer o goed unig, grwpiau bychain o goed, a choed mewn gwrychoedd sydd heb eu cynnwys yn yr ystadegau hyn ond sydd er hynny yn rhoi llawer o fuddion. Yn 2026, cynhyrchodd Ymchwil Coedwigaeth set ddata gofodol o coed y tu allan i goetiroedd (CAG) ar gyfer Cymru. Deilliwyd y gorchudd canopi coed a leolir y tu allan i RhGG o Arolwg LiDAR Cymru a gynhaliwyd rhwng 2020 a 2023. Cymerir categorïau o fathau o goetir trwy ddefnyddio algorithm gofodol seiliedig ar reolau sydd yn gwerthuso'r canlynol:

- nifer brig y coed unigol a ganfuwyd ym mhob polygon canopi;
- arwynebedd y polygon; a
- geometreg y polygon (e.e., crynder)

Defnyddir y paramedrau hyn i neilltuo pob nodwedd i 1 o 4 math o ddosbarth o goetir:

- Coed unigol – coed unigol, a ddangosir fel arwynebeddau bychain o ganopi ar wahân gyda brig un goeden fel arfer o'u mewn.
- Grwpiau o goed – clystyrau bychain o goed yn tyfu'n agos at ei gilydd o fewn yr un llain canopi.
- Coetiroedd bychain – arwynebeddau mwy, di-dor o goed sydd yn cwrdd ag isafswm maint neu nifer o goed.
- Canopi sy'n gordoi – arwynebeddau o goed sy'n hongian dros neu sydd nesaf at goetir Rhestr y Goedwig Genedlaethol.

Adroddir yma am goed penodol a choetiroedd bychain ar wahân i goetiroedd RhGG. Felly, nid yw trosgrog RhGG wedi ei gynnwys. Dengys Tabl 4 grynodeb o set ddata CAG ar gyfer Cymru. Cyfanswm arwynebedd y CAG yw 147, 617 ha.

**Tabl 4: arwynebedd o goed y tu allan i goetiroedd (CAG), Cymru, seiliedig ar arolwg LiDAR Cymru 2020 i 2023**

| Math o Goetir | Cyfanswm Arwynebedd (hectarau) |
|---|---:|
| Grwpiau o Goed | 89,425 |
| Coeden Unig | 10,136 |
| Coetir Bychan | 48,055 |
| Cyfanswm arwynebedd CAG | 147,617 |

Ffynhonnell: Ymchwil Coedwigaeth, 2026.


Noder: Efallai na fydd gwerthoedd yn dod i gyfansymiau oherwydd talgrynnu.

## Data ychwanegol a chyd-destun

### Plannu coetiroedd newydd

Mae Ffigwr 4 yn dangos y coetiroedd a blannwyd o’r newydd yng Nghymru rhwng 1971 a 2025, yn ôl dull o reoli, fel yr adroddwyd gan Ymchwil Coedwigaeth. Yn 2025, crëwyd yr hyn a amcangyfrifwyd fel 842 ha o goetiroedd newydd. Dylid nodi fod y ffigwr hwn yn cynnwys yn unig goetiroedd fel y’u diffiniwyd gan Restr Y Goedwig Genedlaethol, ac y mae swm y coed a blannwyd yng Nghymru yn debygol o fod yn uwch na’r hyn yr adroddwyd amdano.

**Ffigwr 4: plannu coetiroedd newydd yng Nghymru, yn ôl dull o reoli, 1971 i 2025 [noder 1]**




Disgrifiad o ffigwr 4: siart bar wedi’i phentyrru yn dangos plannu coetiroedd gan y sectorau preifat a chyhoeddus rhwng 1971 a 2025. Yn gyffredinol, mae’r siart yn dangos gostyngiad mewn plannu ers 1971. Mae’r gostyngiad hwn i’w briodoli yn bennaf i ostyngiad mewn plannu cyhoeddus; arhosodd plannu preifat yn fwy cyson dros y cyfnod o amser.

Ffynhonnell: Ymchwil Coedwigaeth - cyfres amser, 2025.

[noder 1] Mae plannu gan y sector cyhoeddus yn cynnwys yn unig blannu ar YCLIC. Mae plannu gan y sector preifat yn cynnwys plannu a gyllidwyd yn gyhoeddus ar bob coetir arall. Gall hyn fod yn goetiroedd a reolir gan CNC y tu allan i YCLIC, coetiroedd eraill sydd mewn perchenogaeth gyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol) a choetiroedd mewn perchenogaeth breifat.

### Colli coetiroedd

Mae'n bwysig cadw cyfrif o goetiroedd a gollwyd wrth asesu'r deilliant cyfredol. Mae Ymchwil Coedwigaeth yn cyhoeddi ffigyrau am goetiroedd a gollwyd bob blwyddyn, ac y mae'r rhain yn deillio o fapiau RhGG. Seilir amcangyfrifon o goetiroedd a gollwyd yn bennaf ar ddadansoddiad o ddelweddau lloeren blynyddol er mwyn adnabod newid yn y canoli, a hyn wedyn yn cael ei ddilysu gyda ffotograffau o'r awyr a ffynonellau data perthnasol eraill. Mae'r fethodoleg lawn yn esbonio'r ffynonellau data ychwanegol a ddefnyddiwyd i ddilysu'r coetiroedd a gollwyd.

Mae'r arwynebeddau a nodwyd yn cael eu dosbarthu dan 3 chategori:

- coetiroedd a gollwyd: mannau lle cafwyd tystiolaeth ddiffiniol o symud gorchudd coetiroedd yn barhaol,
- tir sydd wrthi'n cael ei ddatblygu: mannau lle symudwyd cryn dipyn o dir mewn dull sy'n gysylltiedig â datblygu, a
- cynefinoedd blaenoriaeth sydd newydd eu hadfer: man lle bu newid sylweddol yn y math o gynefin trwy osod yn llwyr lystyfiant heb fod yn goed.

Mae Tabl 5 yn rhestru faint o goetiroedd a gollwyd yng Nghymru rhwng 2014 a 2024. Gostwng wnaeth cyfradd flynyddol y coetiroedd a gollwyd dros y cyfnod hwn o amser. Nid yw amcangyfrifon yn adlewyrchu unrhyw blannu a all fod wedi digwydd i wneud iawn am golli coetiroedd mewn ardaloedd penodol (*h.y.,* 'plannu cydadferol').

**Tabl 5: arwynebedd (hectarau) o goetiroedd a gollwyd, Cymru, 2014 i 2024**

| Blwyddyn | Arwynebedd coetiroedd a gollwyd (ha) | Arwynebedd tir sydd wrthi'n cael ei ddatblygu (ha) | Arwynebedd cynefinoedd blaenoriaeth sydd newydd eu hadfer (ha) | Cyfanswm arwynebedd coetiroedd a gollwyd (ha) |
|---|---|---|---|---|
| 2014-15 | 38 | 12 | 2 | 53 |
| 2015-16 | 47 | 22 | 9 | 78 |
| 2016-17 | 24 | 12 | 3 | 39 |
| 2017-18 | 35 | 10 | 1 | 46 |
| 2018-19 | 28 | 15 | 1 | 45 |
| 2019-20 | 11 | 5 | [isel] | 16 |
| 2020-21 | 18 | 12 | 0 | 30 |
| 2021-22 | 4 | 3 | 0 | 7 |
| 2022-23 | 3 | 2 | [isel] | 4 |
| 2023-24 | 3 | 4 | 2 | 8 |

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth: pennod 1, Ymchwil Coedwigaeth, 2025.

Noder: Efallai na fydd gwerthoedd yn dod i gyfansymiau oherwydd talgrynnu.

### Safleoedd y Goedwig Genedlaethol

Crewyd y Coedwig Genedlaethol i Gymru (CGiG) ers cyhoeddi Dangosyddion diwethaf Coetiroedd i Gymru yn 2018. Menter yw'r Goedwig Genedlaethol a arweinir gan Lywodraeth Cymru gyda'r amcan o sefydlu rhwydwaith cenedlaethol cysylltiedig o goetiroedd a choedwigoedd ar hyd a lled Cymru, y cyfan dan reolaeth o ansawdd uchel. Dyma ddeilliannau'r Goedwig Genedlaethol:

- Coetiroedd gwydn o ansawdd da, wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda.
- Coetiroedd sy'n hygyrch i bobl.
- Ymwneud cymunedol â choetiroedd.
- Coetiroedd cysylltiedig.
- Coetiroedd a choed deinamig, amlbwrpas.

- Coetiroedd sydd yn arddangos dysgu, ymchwil ac arloesedd.

I ennill statws Coedwig Genedlaethol, rhaid i safleoedd ddangos sut y maent yn cwrdd â’r deilliannau hyn a rhaid iddynt hefyd fod â chynllun rheoli a gymeradwywyd. Mae cynllun y Goedwig Genedlaethol yn cydnabod coetiroedd teilwng sydd yn cyfrannu at amgylchedd ehangach Cymru a hefyd yn helpu Cymru i gyrraedd deilliannau ehangach y strategaeth coetiroedd.

Fel ar Chwefror 2026, mae’r Goedwig Genedlaethol i Gymru yn cynnwys 82 coetir, sy’n ymestyn dros 4,521 hectar y tu allan i Ystâd Coetiroedd Llywodraeth Cymru (YCLlC), gyda chyfanswm arwynebedd o 114,952 hectar gan gynnwys coetiroedd YCLlC.

# Deilliant 2: mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy

## Dangosydd 2: arwynebedd coetiroedd ardystiedig

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| 2: Arwynebedd coetiroedd ardystiedig | = |

Mae cynlluniau ardystio coedwigaeth yn bodoli er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd sy'n cael ei gyflwyno gan arferion coedwigaeth da. Maent yn cynnig labeli cynnyrch i ardystio fod pren neu gynhyrchion pren yn dod o goedwigoedd sy'n cael eu rheoli'n dda.  Mae ardystiadau'r Cyngor Stiwardiaeth Fforestydd (FSC) a'r Rhaglen Cadarnhau Ardystiad Fforestydd (PEFC) yn cael eu harchwilio'n annibynnol yn erbyn Safon Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Gyfunol (UKWAS). Mae ardystio coetiroedd yn aml yn cael ei ddefnyddio fel dangosydd rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy; serch hynny, dylid nodi y gall coetir nas ardystiwyd hefyd fod dan reolaeth gynaliadwy.

Dengys Tabl 6 arwynebedd y coetiroedd ardystiedig yng Nghymru, yn ôl dull rheoli. Yn 2025 yr oedd arwynebedd y coetiroedd ardystiedig yng Nghymru oddeutu 149,000 hectar. Mae hyn yn cynrychioli oddeutu 48% o goetiroedd Cymru. Ers rhifyn diwethaf dangosyddion CiG, mae arwynebedd y coetiroedd ardystiedig wedi cynyddu, ond nid yn arwyddocaol. Felly, yn y tymor byr, mae cyfanswm yr arwynebedd o goetiroedd ardystiedig yn sefydlog. Bu cynnydd sylweddol (17%) yn arwynebedd coetiroedd y sector preifat a ardystiwyd ers rhifyn diwethaf y dangosyddion.

**Tabl 6: arwynebedd coetiroedd ardystiedig yn ôl dull rheoli (mil hectarau), Cymru, 2004 i 2025**

| Blwyddyn | Sector preifat | Sector cyhoeddus | Cyfanswm Cymru |
|---|---|---|---|
| 2003-04 | 11 | 116 | 127 |
| 2004-05 | 15 | 116 | 131 |
| 2005-06 | 16 | 116 | 131 |
| 2006-07 | 17 | 115 | 133 |
| 2007-08 | 15 | 115 | 130 |
| 2008-09 | 19 | 115 | 134 |
| 2009-10 | 18 | 115 | 133 |
| 2010-11 | 19 | 115 | 134 |
| 2011-12 | 21 | 117 | 138 |
| 2012-13 | 22 | 118 | 140 |
| 2013-14 | 24 | 117 | 141 |
| 2014-15 | 24 | 117 | 141 |
| 2015-16 | 24 | 117 | 141 |
| 2016-17 | 28 | 117 | 145 |
| 2017-18 | 28 | 117 | 145 |
| 2018-19 | 29 | 117 | 146 |
| 2019-20 | 29 | 117 | 146 |
| 2020-21 | 30 | 115 | 145 |
| 2021-22 | 30 | 115 | 145 |
| 2022-23 | 33 | 115 | 148 |
| 2023-24 | 34 | 115 | 149 |
| 2024-25 | 34 | 115 | 149 |

Ffynhonnell: Ymchwil Coedwigaeth - cyfres amser, 2025.

## Data ychwanegol a chyd-destun

### Coedwig Genedlaethol i Gymru

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae'r Goedwig Genedlaethol i Gymru bellach yn cynnwys dros 110,000 hectar o goetiroedd yng Nghymru. I ddod yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol, rhaid i goetiroedd feddu ar gynlluniau rheoli 10-mlynedd cyfoes a phriodol. Er mwyn ennill statws Coedwig Genedlaethol, rhaid i safleoedd ddangos tystiolaeth o gynlluniau rheoli coetiroedd sy'n cael eu llywio gan safon coedwigaeth y DU (UKFS) ac sy'n cyfeirio at Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (RhCAN).

## Deilliant 3: systemau coetiroedd yn iach a gwydn

Asesir y deilliant hwn gyda 2 ddangosydd: gwytnwch coetiroedd ac iechyd coed. Mae ffynonellau data ychwanegol yn gysylltiedig â'r naill ddangosydd a'r llall. Caiff gwytnwch coetir ei asesu trwy ddefnyddio dangosyddion cyflwr ecolegol coetiroedd RhGG, gyda data ychwanegol yn ymdrin â chysylltedd ac amrywiaeth. Caiff iechyd coed ei asesu trwy ddefnyddio data Statudol Iechyd Planhigion, gyda data ychwanegol o Rwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru, a Gwasanaethau Diagnostig a Chynghori ar Iechyd Coed.

### Dangosydd 3a: gwytnwch coetiroedd: cyflwr ecolegol coetiroedd

Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG: Data gwaelodlin, ni ellir disgrifio unrhyw duedd.  Disgwylir diweddariad i ddangosyddion cyflwr ecolegol coetiroedd yr RhGG yn 2026.

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (ASAN), a gyhoeddir gan CNC bob 5 mlynedd, yn diffinio ecosystem wydn fel amgylchedd a all ymateb i bwysau trwy wrthwynebu, adfer neu ymaddasu i newid; ac a all barhau i ddarparu adnoddau naturiol a manteision i bobl. Mae'n anodd rhoi un dangosydd pendant ar gyfer gwytnwch ecosystem, gan fod gwytnwch wedi ei ffurfio o lawer o wahanol gydrannau. Mae ASAN yn mabwysiadu fframwaith  AECCG (Amrywiaeth, Ehangder, Cyflwr, Cysylltedd, cyfleoedd Gweithredu) i asesu gwytnwch. Gorwedd y fframwaith hwn o fewn dangosyddion CiG. Ymdrinnir ag ehangder yn y dangosyddion dan ddeilliant 1. Mae cyflwr yn cael ei drin yma gan ddefnyddio dangosyddion cyflwr ecolegol coetiroedd y Rhestr Genedlaethol am Goedwigaeth (RhGG). Cynhwysir amrywiaeth a chysylltedd yma fel data ychwanegol. Mae amrywiaeth a chysylltedd fel ei gilydd yn agweddau pwysig o wytnwch coetiroedd; fodd bynnag, golyga heriau ynghylch data nad ydynt yn cael eu defnyddio fel prif ddangosyddion. Mae ffynonellau data pellach a dangosyddion perthnasedd am gyflwr amgylcheddol ym Mhennod 5: Ansawdd Amgylcheddol dangosyddion CiG.


Mae RhGG yn rhoi gwybodaeth am faint, dosbarthiad a chyfansoddiad coedwigoedd a choetiroedd gan gynnwys cyflwr ecolegol coetiroedd. Caiff coetiroedd eu hasesu yn erbyn 15 o ddangosyddion CEC  a'u categoreiddio fel ffafriol, canolraddol neu anffafriol o ran cyflwr. Seilir y categoreiddio ar gymhariaeth ag un meincnod, 'coetir

lled-naturiol mewn cyflwr ffafriol'. Mae adroddiadau Cyflwr Ecolegol Coetiroedd RhGG yn darparu rhagor o fanylion a'r fethodoleg. Cafodd y data oedd yn galluogi gweithio allan y dangosyddion CEC eu mesur fel rhan o gylch arolwg RhGG 2010-2015, a chyhoeddwyd yr adroddiadau yn 2020. Disgwylir rhyddhau asesiad wedi'i ddiweddaru yn 2026. Defnyddir y data a gyflwynir yma fel gwaelodlin.

Dengys Ffigyrau 5, 6 a 7 ganlyniadau dadansoddiad RhGG o goetiroedd Cymru yn erbyn pob un o 15 dangosydd CEC, yn ôl math o goetir (brodorol, lled-frodorol a darnau, ac anfrodorol). Yn y cyd-destun hwn, diffinnir coetir brodorol fel stondiau coetir gyda 50% neu fwy o rywogaethau o goed brodorol yn y canopi uwch, sydd naill ai yn ffurfio llain annibynnol o goetir gydag isafswm arwynebedd o 0.5 ha neu sy'n ffurfio stond o goetir gydag isafswm arwynebedd o 0.1 ha sy'n rhan o goetir sydd yn 0.5 ha neu'n fwy. Diffinnir coetiroedd anfrodorol fel stondiau o goetir gyda llai na 40% o rywogaethau brodorol mewn coetir o unrhyw faint. Mae coetiroedd lled-frodorol a darnau oll yn goetiroedd nad ydynt yn dod i'r naill na'r llall o'r ddau gategori arall. Gallai hyn fod â gorchudd canopi brodorol rhwng 40 a 49% neu fod â mwy na 50% o orchudd canopi brodorol ond sydd yn dan y trothwyau maint a osodir allan uchod. Mae diffinio'r categori hwn yn caniatáu asesu ac adrodd am bob arwynebedd o goetir o ran ei gyflwr ecolegol.

Mae Tabl 7 yn crynhoi'r canrannau o bob math o goetir sydd mewn cyflwr ffafriol, anffafriol a chanolraddol o ran 'sgôr cyflwr ecolegol cyffredinol'. Gan goetiroedd brodorol y mae canran uchaf yr arwynebedd sydd mewn cyflwr ffafriol, o gymharu â rhai anfrodorol a lled-frodorol a darnau. Yn gyffredinol, mae mwyafrif y coetiroedd o bob math mewn cyflwr canolraddol.


**Ffigwr 5: canrannau pob dosbarth o gyflwr ecolegol coetiroedd, o ran pob un math o ddangosydd CEC mewn stondiau coetiroedd brodorol yng Nghymru**




Disgrifiad o ffigwr 5: siart bar llorweddol yn dangos canran y coetiroedd sy'n anffafriol, canolraddol neu ffafriol ar gyfer pob dangosydd.

Ffynhonnell: Amcangyfrifon dros dro RhGG o sgoriau cyflwr ecolegol coetiroedd ar gyfer Cymru , 2020.


**Ffigwr 6: canrannau pob dosbarth o gyflwr ecolegol coetiroedd, o ran pob un math o ddangosydd CEC mewn coetiroedd lled-frodorol a darnau yng Nghymru**




Disgrifiad o ffigwr 6: siart bar llorweddol yn dangos canran y coetiroedd sy'n anffafriol, canolraddol neu ffafriol ar gyfer pob dangosydd.

Ffynhonnell: Amcangyfrifon dros dro RhGG o sgoriau cyflwr ecolegol coetiroedd ar gyfer Cymru , 2020.

**Ffigwr 7: canrannau pob dosbarth o gyflwr ecolegol coetiroedd, o ran pob un math o ddangosydd CEC mewn stondiau anfrodorol yng Nghymru**




Disgrifiad o ffigwr 7: siart bar llorweddol yn dangos canran y coetiroedd sy’n anffafriol, canolraddol neu ffafriol ar gyfer pob dangosydd

Ffynhonnell: Amcangyfrifon dros dro  RhGG o sgoriau cyflwr ecolegol coetiroedd ar gyfer Cymru, 2020.

.

**Tabl 7: arwynebedd a chanran coetiroedd mewn cyflwr anffafriol, canolraddol a ffafriol o ran sgôr ecolegol cyffredinol, yn ôl math o goetir, Cymru**

| Math o goetir | Arwynebedd anffafriol (000 ha) | Canran arwynebedd anffafriol | Arwynebedd canolraddol (000 ha) | Canran arwynebedd canolraddol | Arwynebedd ffafriol (000 ha) | Canran arwynebedd ffafriol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Brodorol | 0.2 | 0.1% | 135.1 | 91.0% | 13.2 | 8.9% |
| Lled-frodorol a darnau | 0.1 | 1.4% | 6.7 | 97.1% | 0.1 | 1.4% |
| Anfrodo-rol | 2.3 | 1.5% | 153.4 | 97.9% | 1.0 | 0.6% |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon dros dro  RhGG o sgoriau cyflwr ecolegol coetiroedd ar gyfer Cymru


## Data ychwanegol a chyd-destun

### Amrywiaeth

Gyda hinsoddau'n newid, daeth pwysigrwydd coetiroedd amrywiol o ran rhywogaethau ac amrywiaeth genetig i'r amlwg. Cafodd amrywiaeth rhywogaethau coetiroedd a stociwyd ei asesu yn ôl dalgylch afonydd yng Nghymru gan Restr  y Goedwig Genedlaethol yn 2012 a 2022. Dangosir cyfanswm yr arwynebeddau a stociwyd yn ôl prif rywogaethau yn 2012 ac yn 2022 yn ffigwr 8, paneli A a B. Dangosir cymhariaeth o ffurfiant y rhywogaethau yn ffigwr 8, panel C. Eglurir ansicrwydd y canlyniadau yn adran canlyniadau adroddiad Ymchwil Coedwigaeth.

Disgyn wnaeth canran yr arwynebeddau a stociwyd gyda'r 4 rhywogaeth fwyaf helaeth (pyrwydd Sitka, deri, ynn, onnen, bedw) o 2012 i 2022. Pyrwydd Stika oedd y rhywogaeth amlycaf yn yr arwynebedd a stociwyd, yn 2012 ac yn 2022.

**Ffigwr 8: arwynebedd a stociwyd yn ôl prif rywogaethau, Cymru, 2012 vs. 2022**




Disgrifiad o ffigwr 8: dengys panel A siart bar gyda phob bar yn cynrychioli’r arwynebedd a stociwyd ar gyfer pob rhywogaeth o goed yn 2012. Gan byrwydd Sitka y mae’r bar mwyaf. Dengys panel B siart bar cyffelyb gyda phob bar yn cynrychioli’r arwynebedd a stociwyd ar gyfer pob rhywogaeth o goed yn 2022. Gan byrwydd Sitka y mae’r bar mwyaf o hyd. Dengys panel C 2 far wedi’u pentyrru, wedi’u hollti yn arwynebedd lle mae pob rhywogaeth yn tra-arglwyddiaethu. Mae’n dangos fod mwy o arwynebedd yn gyffredinol yn 2022 gyda’r hollt yn debyg rhwng y rhywogaethau.

Ffynhonnell: [RhGG estimates for woodland in catchment areas yng Nghymru]

Gyda bygythiadau o du plâu a chlefydau yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd i ddod wrth i'r hinsawdd gynhesu ac i fasnach fyd-eang gynyddu, mae pwysigrwydd amrywiaeth genetig i wrthsefyll bygythiadau posib hefyd yn cynyddu fwyfwy. Er mwyn cadw amrywiaeth genetig adnodd genetig coedwigoedd (AGC), mae Rhaglen Adnoddau Genetig Coedwigoedd Ewropeaidd (EUFORGEN) a system wybodaeth EUFGIS yn cydgordio rhwydwaith ledled Ewrop o Unedau Cadwraeth Genetig (GCU). Ymchwil Coedwigaeth sy'n gyfrifol am ddynodi GCU ym Mhrydain. Ar hyn o bryd, dynodwyd 3 GCU yng Nghymru, ar draws 2 safle. Dangosir safle a rhywogaethau'r GCU hyn yn Nhabl 8. Mae hyn yn cynrychioli gwerth gwaelodlin ar gyfer nifer yr GCU yng Nghymru. Mae gwaith ar y gweill i gynyddu nifer yr GCU yng Nghymru.

**Tabl 8: GCU yng Nghymru, 2025**

| Enw'r Safle | Poblogaeth Rhywogaeth Darged |
|---|---|
| Coed Cymerau Isaf | Betula pendula (bedwen arian) |
| Coed Cymerau Isaf | Quercus petraea (derwen ddigoes) |
| GNG Coedydd Aber | Malus sylvestris (afallen Ewropeaidd) |

Ffynhonnell: Ymchwil Coedwigaeth, 2025.

### Cysylltedd

Tybir fod cysylltedd coetiroedd yn gwella symud a gwasgaru rhywogaethau ar draws y dirwedd ac yn gwella'r cyflwr yn gyffredinol i blanhigion coetiroedd ac organebau symudol. Mae cynnydd mewn cysylltedd coetiroedd felly yn ddeliant positif. Fel rhan o adrodd ERAMMP am Dueddiadau Cenedlaethol a Gwerthuso Glastir, aseswyd coetiroedd llydanddail cymysg ac yw am gysylltedd. Canfuwyd na fu unrhyw newidiadau tymor-byr arwyddocaol mewn cysylltedd, gan gynnwys ac eithrio nodweddion llinellol.

Fel rhan o gyfrifon cyfalaf naturiol coetiroedd, edrychir i mewn i gysylltedd trwy gysylltedd ffwythiannol rhywogaethau o adar coetir. Mae tystiolaeth fod cysylltedd ffwythiannol wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Ni chynhwysir y data hwn yma gan eu bod yn cael eu dal ar lefel y DU, nid i Gymru yn benodol. Yn gyffredinol, nid oes dangosydd clir ar hyn o

bryd am gysylltedd coetiroedd yng Nghymru, er y cynhaliwyd asesiadau unigol. Gyda chynhyrchu map CAG i Gymru, dylai fod yn bosib mapio cysylltedd coetiroedd yn fanylach.

## Dangosydd 3b: iechyd coed: Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol

| **Dangosydd** | **Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG [noder 1]** |
|---|---|
| 3b: Arwynebedd newydd dan Hysbysiad Statudol Iechyd Planhigion | ↑ |

[noder 1] efallai na fydd y duedd hon yn arwydd o welliant yn iechyd coed na gostyngiad ym mhresenoldeb *Phytophthora ramorum*, ond gall hyn fod oherwydd bod camau a gymerwyd ers 2010 yn golygu bod cryn dipyn yn llai o larwydd ar gael i'w heintio. Hefyd, mae'r meini prawf y cyhoeddir HIPS danynt ar gyfer heintiad *P. ramorum* wedi newid yn ddiweddar.

Dros y blynyddoedd diwethaf, cafodd plâu a chlefydau effaith fawr ar goed a choetiroedd yng Nghymru. Mae monitro lledaeniad plâu a chlefydau ac ystyried bygythiadau posib i goetiroedd Cymru yn agwedd bwysig o ran sicrhau coetiroedd iach, gwydn. Yr hyn a drafodwyd yn rhifyn diwethaf dangosyddion Coetiroedd i Gymru oedd *Phytophthora ramorum*, gwywo'r ynn a gwyfyn gorymdeithiol y deri, oherwydd effaith wirioneddol neu bosib y plâu allweddol hyn. Mae'r prif ddangosydd yma yn defnyddio data sy'n ymwneud â Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol (HIPS). Er mwyn adeiladu llun mwy cyflawn o blâu a chlefydau coed yng Nghymru, defnyddir data ychwanegol yma o Rwydwaith Gymreig Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion (RhGGIP), a Gwasanaethau Diagnostig a Chynghori Iechyd Coed (GDChIC) FR.

Er mwyn rheoli lledaeniad rhai plâu a chlefydau coed, gellir cyhoeddi Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol (HIPS). Hysbysiadau yw'r rhain sydd yn mynnu dinistrio coed a heintiwyd (eu cwympo fel arfer). Yng Nghymru, cyhoeddir HIPS er mwyn rheoli lledaeniad *Phytophora ramorum* mewn coed llarwydd. Mae'r arwynebedd dan HIPS yng Nghymru, yn ôl HIPS blynyddol a gyhoeddwyd a'r arwynebedd cronnus dan HIPS yn cael eu dangos yn nhabl 9. O 2025 ymlaen, cwympwyd cyfanswm o 9,109 ha o goed llarwydd dan HIPS. Ers rhifyn diwethaf y dangosyddion, bu gostyngiad sylweddol yn yr arwynebedd newydd dan HIPS.

**Tabl 9: arwynebedd dan Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol, Cymru, 2010 i 2025**

| Blwyddyn | Arwynebedd newydd dan HIPS (ha) | Arwynebedd cronnus dan HIPS (ha) |
|---:|---:|---:|
| 2010 | 836 | 836 |
| 2011 | 635 | 1,471 |
| 2012 | 1,346 | 2,817 |
| 2013 | 4,689 | 7,506 |
| 2014 | 568 | 8,075 |
| 2015 | 405 | 8,480 |
| 2016 | 194 | 8,674 |
| 2017 | 1,179 | 9,853 |
| 2018 | 1,619 | 11,472 |
| 2019 | 486 | 11,958 |
| 2020 | 1,426 | 13,384 |
| 2021 | 1,201 | 14,586 |
| 2022 | 750 | 15,335 |
| 2023 | 179 | 15,515 |
| 2024 | 81 | 15,596 |
| 2025 | 4 | 15,600 |

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl.

## Data ychwanegol a chyd-destun

### Canlyniadau o Rwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru

Prosiect a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yw Rhwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru (RhGIPC) i fonitro plâu a phathogenau brodorol ac ymwthiol a all fod yn fygythiad i iechyd planhigion a choed ledled Cymru. Menter yw hon sy'n torri tir newydd, gyda'r nod o fod yn rhaglen i ganfod a monitro yn gynnar plâu a chlefydau nad ydynt eto wedi sefydlu yng Nghymru a all ddod yn broblem yn y dyfodol, yn ogystal â monitro rhai plâu a chlefydau sydd eisoes yn bresennol. Mae presenoldeb, absenoldeb a helaethrwydd plâu a phathogenau allweddol yn cael eu cofnodi trwy rwydwaith o drapiau pryfetach a sborau a ddefnyddir ledled Cymru. Mae mwy o wybodaeth am RhGIPC, a rhestr lawn o rywogaethau targed, ar wefan Rhwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru, ynghyd â dolenni i adroddiadau blynyddol RhGIPC. Dengys **Error! Reference source not found.** bresenoldeb ac absenoldeb *Ips typographus*, a dengys **Error! Reference source not found.** gyfanswm nifer yr *Ips cembrae* a ganfuwyd gan RhGIPC rhwng 2022 a 2025.

**Tabl 10: canlyniadau ar gyfer monitro Ips typographus gan RhGIPC, 2022 i 2025**

| Blwyddyn | Nifer trapiau | Presenoldeb/Absenoldeb | Cyfanswm nifer y pryfetach a ganfuwyd |
|---|---|---|---|
| 2022 | 9 | Absennol | |
| 2023 | 16 | Absennol | |
| 2024 | 23 | Presennol (*dod ar eu traws*) [noder 1] | 3 unigolyn |
| 2025 | 35 | Absennol | |

Ffynhonnell: Rhwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru, Ymchwil Coedwigaeth, 2026.

[noder 1] yr oedd y rhai y daethpwyd ar eu traws yn 2024 wedi eu cyflwyno gan y gwynt. Nid oes unrhyw dystiolaeth am unrhyw boblogaethau sefydledig o *Ips typographus* yng Nghymru.

**Tabl 11: canlyniadau ar gyfer monitro Ips cembrae gan RhGIPC, 2022 i 2025**

| Blwyddyn | Nifer trapiau | Nifer trapiau lle canfuwyd *Ips cembrae* | % trapiau gydag *Ips cembrae* yn bresennol | Cyfanswm nifer o *Ips cembrae* a ganfuwyd |
|---|---|---|---|---|
| 2022 | 10 | 9 | 90% | 908 |
| 2023 | 17 | 14 | 82% | 550 |
| 2024 | 5 | 5 | 100% | 231 |
| 2025 | 13 | 11 | 85% | 358 |


Ffynhonnell: Rhwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru, Ymchwil Coedwigaeth, 2026.

**Gwasanaeth Diagnostig a Chynghori ar Iechyd Coed**

Mae'r Gwasanaeth Diagnostig a Chynghori ar Iechyd Coed (GDChIC) yn rhan o Ymchwil Coedwigaeth ac yn darparu cyngor a, lle bo modd, diagnosis ac adnabod plâu a phathogenau coed ledled Prydain Fawr. TreeAlert yw'r erfyn adrodd ar-lein am blâu a chlefydau coed, a reolir gan Ymchwil Coedwigaeth gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â Defra, y Comisiwn Coedwigaeth, a Scottish Forestry. Gyda TreeAlert, mae modd adrodd am amheuaeth o ganfod plâu a chlefydau coed, sydd wedyn yn cael eu brysbennu a'u hasesu gan GDChIC.

Dangosir adroddiadau cyffredinol i GDChIC ledled Cymru am y cyfnod 2020 i 2025 yn ffigwr 9. Mae cyfran gynyddol o adroddiadau i GDChIC yn cael eu cyflwyno drwy TreeAlert.

**Ffigwr 9: adroddiadau i GDChIC yn ôl dull o adrodd, Cymru, 2020 i 2025**




Disgrifiad o ffigwr 9: Siart bar yn dangos fod y nifer uchaf o adroddiadau ym mhob blwyddyn i GDChIC yn dod o TreeAlert.

Ffynhonnell: Gwasanaeth Diagnostig a Chynghori ar Iechyd Coed, Ymchwil Coedwigaeth, 2026.


**Risgiau anfiotig**

Er mwyn gofalu bod coetiroedd yn iach a gwydn, rhaid ystyried ffactorau risg anfiotig hefyd. Ffynhonnell fawr o golli coetiroedd yw difrod o ganlyniad i stormydd. Mae rhagfynegiadau yn cyfeirio at gynnydd yn y dyfodol yn amlder a dwyster cyflymder eithafol y gwynt a nifer y stormydd. Gall difrod gwynt arwain at golli cryn dipyn o goed a chyfyngu'n ddifrifol ar hirhoedledd stociau carbon.  Ddiwedd 2024, trawyd Cymru gan storm Darragh a arweiniodd at ddifrod gwynt i ryw 900 hectar o Ystâd Coetiroedd Llywodraeth Cymru (YCLIC).

Bygythiad mawr arall i ecosystemau coetiroedd yw tanau gwyllt. Dengys Ffigwr 10 ddigwyddiadau blynyddol o danau mewn coetiroedd / coedwigoedd yng Nghymru o 2009 i 2024. Dyma gyfanswm nifer y tanau bob blwyddyn am y naill gategori a'r llall

‘Coetir/coedwig - conwydd/pren meddal’ a ‘Choetir/coedwig - llydanddail/pren caled’, gan gynnwys prif danau a rhai eilaidd (diffiniwyd y gwahaniaeth hwn yn unig yn 2021-22). Nid oes tuedd glir yn  nifer y tanau mewn coetiroedd a choedwigoedd dros amser. I adrodd yn y dyfodol, byddai’n rhoi mwy o wybodaeth o ddeall arwynebedd a maint y difrod i goetiroedd o danau, yn hytrach na dim ond nifer y digwyddiadau.

**Ffigwr 10: digwyddiadau blynyddol o danau mewn coetiroedd/coedwigoedd, Cymru, 2009 i 2024**




Disgrifiad o ffigwr 10: Graff llinell yn dangos nifer y digwyddiadau o danau mewn coetiroedd/coedwigoedd rhwng 2009 a 2024. Ni ddangosir unrhyw duedd glir.

Ffynhonnell: [Prif danau a rhai eilaidd mewn glaswelltir, coetiroedd a thanau cnydau fesul mis a blwyddyn ariannol | StatsCymru]

# Deilliant 4: coetiroedd wedi addasu’n well i gyflwyno ystod lawn o fanteision

## Dangosydd 4: gwasanaethau ecosystem coetiroedd


| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| 4: Gwerth blynyddol gwasanaethau ecosystem coetiroedd | ↓ |

Mae coetiroedd a choed yn rhoi ystod eang o fanteision gan gynnwys darparu gwasanaethau o ddefnyddio pren fel adnodd (yr ymdrinnir ymhellach ag ef ym mhennod 4 adroddiad y dangosyddion), gwasanaethau rheoleiddio gan gynnwys rheoleiddio nwyon tŷ gwydr a llygredd aer (yr ymdrinnir ymhellach â hwy ym mhenodau 2 a 5 adroddiad y dangosyddion), a gwasanaethau diwylliannol megis manteision iechyd a hamdden (yr ymdrinnir â hwy ym mhennod 3 adroddiad y dangosyddion).

Dengys Ffigwr 11 grynodeb o’r amcangyfrif o werth blynyddol gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan goetiroedd yng Nghymru rhwng 2011 a 2023. Cynhyrchwyd y rhain gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol (SYG) am gyfrifon cyfalaf naturiol coetiroedd (CCN). Cyhoeddwyd yr CCN  am goetiroedd yn 2026; fodd bynnag, yr amcangyfrifon mwyaf cyfoes am lawer o’r gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan goetiroedd ac a gynhwysir yma yw rhai 2023.

Ers rhifyn diweddaraf y dangosyddion, mae cyfanswm gwerth blynyddol y gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan goetiroedd wedi gostwng.

**Ffigwr 11: gwerth blynyddol (£ miliynau) o wasanaethau ecosystem a ddarperir gan goetiroedd yng Nghymru, 2011 i 2023**




Disgrifiad o ffigwr 11: siart bar a bentyrrwyd lle mae pob bar yn cynrychioli gwerth blynyddol mewn £ miliynau, wedi'i hollti i'r gwahanol wasanaethau ecosystem a ddarperir gan goetiroedd yng Nghymru. Y duedd gyffredinol mewn gwerth blynyddol yw ei fod yn gyson rhwng 2011 a 2016, iddo godi rhwng 2016 a 2019 cyn gostwng eto rhwng 2019 a 2022, gan aros yn uwch na gwerthoedd 2016. Rheoleiddio nwyon tŷ gwydr sy'n cynrychioli'r gyfran uchaf o werth blynyddol gwasanaethau ecosystem.

Ffynhonnell: [Cyfrifon cyfalaf naturiol coetiroedd, DU: 2026 – Swyddfa Ystadegau Genedlaethol]

## Data ychwanegol a chyd-destun

### Coedwig Genedlaethol i Gymru

I sicrhau bod mwy o goetiroedd a choed yn cyflwyno'r ystod lawn o fanteision, mae'r Goedwig Genedlaethol i Gymru yn mynnu bod safleoedd yn rhoi tystiolaeth o'r modd y maent yn cwrdd â'r 6 o ddeilliannau lefel-uchel y Goedwig Genedlaethol. Fel y crybwyllwyd eisoes, dyma hwy:

- Coetiroedd gwydn o ansawdd dda, wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda.
- Coetiroedd sy'n hygyrch i bobl.
- Ymwneud cymunedol â choetiroedd.
- Coetiroedd cysylltiedig.
- Coetiroedd a choed deinamig, amlbwrpas.
- Coetiroedd sy'n arddangos dysgu, ymchwil ac arloesedd.

Mae dros 90% o safleoedd Coedwig Genedlaethol i Gymru ar hyn o bryd yn cwrdd â'r 6 deilliant. Mae hyn yn amlygu'r amrywiaeth o fanteision mae coetiroedd ar hyn o bryd yn ddarparu yng Nghymru.

# Deilliant 5: mae rheolaeth coetiroedd a choed yn ymwneud yn agosach â mathau eraill o ddefnydd tir

## Dangosydd 5: rheoli coetiroedd ffermydd – wrthi'n cael ei ddatblygu

Mae cyfran sylweddol o goetiroedd Cymru ar dir amaethyddol, ac y mae strategaeth Coetiroedd i Gymru yn gosod allan y dyhead i goetiroedd ffermydd a choed a gwrychoedd ar ffermydd gael eu gwerthfawrogi a chyfrannu at reoli tir amaethyddol yn gynaliadwy.

Er bod llawer o weithgaredd diweddar wedi digwydd i wella rheolaeth coetiroedd a chreu coetiroedd ar ffermydd, ar hyn o bryd nid oes ffynhonnell gyson o ddata am y graddau y rheolir coetiroedd ffermydd. Mae'r fethodoleg ar gyfer casglu ynghyd arwynebedd coetiroedd ffermydd, a gyhoeddir gan Ymchwil Coedwigaeth, yn destun adolygiad ac felly nis cynhwysir yn y rhifyn hwn o'r dangosyddion. Gyda lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio data newydd i nodi newidiadau yn y graddau y mae coetiroedd ffermydd yn cael eu rheoli dros amser.

# Deilliant 6: coetiroedd a choed trefol yn cyflwyno ystod lawn o fanteision

Asesir y deilliant hwn gyda 2 ddangosydd: Gorchudd Canopi Coed Trefol a Chanfyddiadau o Fanteision Coed Trefol.

## Dangosydd 6a: gorchudd canopi coed trefol

Tuedd ers adroddiad dangosyddion CiG: Ni chyfoeswyd y data hwn ers rhifyn diwethaf y dangosyddion. Disgwylir y bydd modd defnyddio data synhwyro o bell, fel yr hyn a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r map CAG ar gyfer Cymru, i bennu'r gorchudd canopi trefol yn y dyfodol.

Mae gorchudd canopi coed trefol yn ddosbarth gorchudd-tir ac yn fetrig 2-ddimensiwn sy'n arwydd o arwynebedd dail, canghennau, a choesynnau coed o edrych arnynt uwchben ar draws arwynebedd penodol, waeth pa ddosbarthiadau gorchudd-tir eraill a all fod oddi tanynt. Mae gorchudd canopi coed yn ddangosydd buddiol o faint coed a choetiroedd trefol, gan mai trwy eu canopïau yn bennaf y mae coed trefol yn cyflwyno eu manteision amgylcheddol a chymdeithasol.

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i gynnal astudiaeth gyflawn o orchudd canopi ei holl ardaloedd trefol, yng Ngorchudd coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Trwy ddefnyddio ffotograffiaeth o'r awyr o 2006, 2009 a 2013 nodwyd a mapio lledaeniad coron ddeiliog coed mewn ardaloedd trefol. Cynhyrchwyd diweddariad data pellach yn 2018/19. O gymharu canlyniadau rhwng 2006 a 2009, yr oedd yn arwydd bod gorchudd canopi trefol wedi cynyddu o 14.1%. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cymharu tebyg â thebyg gan fod manylder ffotograffiaeth o'r awyr yn sylweddol wahanol rhwng dau gyfnod yr astudiaeth. Yn 2006, dim ond coed gyda diamedr coron mwy na 3m y gellid eu canfod, ac o ddelweddau o'r awyr yn 2009, yr oedd modd canfod coed gyda diamedr coron o fwy na 2m. Penderfynwyd felly, ar gyfer y dangosyddion hyn, mai dim ond gwerthoedd o 2009 ymlaen gaiff eu defnyddio er mwyn sicrhau bod y gymhariaeth rhwng cyfnodau astudio yn deg. Dengys Tabl 12 orchudd canopi coed trefol yng Nghymru o 3 arolwg CNC. Cafwyd gostyngiad yng ngorchudd canopi coed trefol rhwng 2009 a 2013, ac arhosodd y gorchudd canopi yn sefydlog rhwng 2013 a 2018 (cynnydd o 0.07%, neu 61 ha).

Mae'n debyg y bydd arwynebedd y coed trefol yr adroddir amdano yma yn yr adroddiad am goed y tu allan i goetiroedd a welwyd yn gynharach yn y ddogfen hon; fodd bynnag, dim ond ardaloedd trefol a ystyrir yma. Ymhellach, gall gwahaniaethau mewn methodoleg olygu

nad oes gorgyffwrdd uniongyrchol yn y setiau data hyn. Yn y dyfodol, gall gorchudd canopi trefol a gorchudd canopi ar ffermydd gael eu cymryd o'r map CAG ar gyfer Cymru.

**Tabl 12: gorchudd canopi coed trefol yng Nghymru, 2009 i 2018**

| Blwyddyn | 2009 | 2013 | 2018 |
|---|---|---|---|
| Gorchudd canopi trefol cymedrig | 17.00% | 16.34% | 16.41% |
| Arwynebedd coed (ha) | 14,636 | 14,171 | 14,231 |


Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru, Gorchudd coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru

## Dangosydd 6b: canfyddiadau o fanteision coed trefol

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| 6b: Canfyddiad o fanteision coed trefol | ↓ |

Un agwedd o'r deilliant hwn yw bod coed trefol yn cyflwyno ystod lawn o fanteision. Mae Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth, a gynhelir bob dwy flynedd gan Ymchwil Coedwigaeth, yn ymdrin â chanfyddiadau o fanteision coed trefol. Dengys Ffigwr 12 y canran o ymatebwyr a nododd o leiaf un fantais i goed trefol. Gostwng wnaeth hyn rhwng 2017 a 2025, ac felly ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG, mae'r duedd tuag i lawr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arwydd o union fanteision coed trefol, ond yn hytrach o ganfyddiad y cyhoedd o'r manteision sy'n deillio o goed trefol. Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn deall beth sydd y tu ôl i'r gostyngiad hwn mewn canfyddiad o fanteision. Mae canlyniadau pellach o arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth, yn ymwneud â choetiroedd yn ehangach, wedi eu cynnwys ym Mhennod 3: Coetiroedd i Bobl.

**Ffigwr 12: canran ymatebwyr a nododd fanteision coed mewn strydoedd i'r ardal drefol leol, Cymru, 2017 i 2025**




Disgrifiad o ffigwr 12: siart llinell yn dangos gostyngiad cyffredinol yng nghanran yr ymatebwyr sy'n adrodd am fantais coed ar strydoedd.

Ffynhonnell: Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth, Ymchwil Coedwigaeth, 2025.